Darlith 3

19eg o Hydref 2023

Yr Amherffaith

Nod y sesiwn:

- Adolygu patrymau ymadroddion dosbarth.
- Yr Amherffaith (*Imperfect Tense*).

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David
Peniarth .cymru
Rhagor iaith
Canolfan Gwasanaethau Cymraeg
Welsh Language Services Centre

Pa ddydd ydy hi heddiw?

Which/What day is it today?

Dydd Iau ydy hi heddiw.

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David

Peniarth.cymru | Rhagor iaith | Canolfan Gwasanaethau Cymraeg | Welsh Language Services Centre

Ydy hi'n fis Hydref?

Is it October?

Ydy, mae hi'n fis Hydref.

Nac ydy, dydy hi ddim yn fis Hydref.

RHEOL:
Ydy yn y cwestiwn =
Ydy / Nac ydy yn yr ateb

RULE:
Ydy in the **question** =
Ydy / Nac ydy in the answer.

Ydy hi'n heulog heddiw?

Ydy, mae hi'n heulog heddiw.

Nac ydy, dydy hi ddim yn heulog heddiw.

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David

Peniarth.cymru RHAGOR iaith CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

Caneuon Cyw

? Ydy hi'n braf?

✓ Ydy, mae hi'n braf.

✗ Nac ydy, dydy hi ddim yn braf.



? Oedd hi'n braf?

✓ Oedd, roedd hi'n braf.

✗ Nac oedd, doedd hi ddim yn braf.

? Fydd hi'n braf?

✓ Bydd, bydd hi'n braf.

✗ Na fydd, fydd hi ddim yn braf.

Tasg: Ewch ar wefan Ieithgar:

https://www.ieithgar.cymru/adnoddau/map-y-tywydd?3

Ydy hi'n braf yn Aberystwyth?

Ydy, mae hi'n braf yn Aberystwyth.

Nac ydy, dydy hi ddim yn braf yn Aberystwyth.

Agor y wers:

Mewn 30 eiliad ysgrifennwch frawddegau gallwch chi ddefnyddio wrth agor eich gwersi.

https://www.ieithgar.cymru/adnoddau/amserydd?a=3:30

Cloi'r wers:

Mewn 30 eiliad ysgrifennwch frawddegau gallwch chi ddefnyddio wrth gloi eich gwersi.

https://www.ieithgar.cymru/adnoddau/amserydd?a=3:30

Yr Amherffaith

The Imperfect

I was

Amherffaith BOD

Cadarnhaol +	Negyddol -	Cwestiwn ?
Roeddwn i	Doeddwn i ddim	Oeddwn i?
Roeddet ti	Doeddet ti ddim	Oeddet ti?
Roedd e	Doedd e ddim	Oedd e?
Roedd hi	Doedd hi ddim	Oedd hi?
Roedden ni	Doedden ni ddim	Oedden ni?
Roeddech chi	Doeddech chi ddim	Oeddech chi?
Roedden nhw	Doedden nhw ddim	Oedden nhw?

Saesneg	Cymraeg
I liked	Roeddwn i'n hoffi
I used to live	Roeddwn i'n byw
I thought	Roeddwn i'n meddwl
*I knew (**a fact**)*	Roeddwn i'n gwybod
*I knew (**a person**)*	Roeddwn i'n adnabod

It is often used where English uses the past tense, especially with:
"hoffi/ byw/ meddwl/ gwybod/ adnabod."

Dril 1 Dyddiau ysgol

Roeddwn i'n	mynd	i ysgol y Parc.
	cerdded	i'r ysgol.
	cael mwynhau!	cinio ysgol.
Roedden ni'n	gwisgo	trowsus du a siwmper las.
	chwarae	pêl-droed ar yr iard.
	cael	gwersi mathemateg, Cymraeg a Saesneg.

Dril 2 Beth roeddet ti'n wneud yn yr ysgol? Beth roeddech chi'n wneud yn yr ysgol?

Roeddwn i'n	ysgrifennu	straeon.
Roedden ni'n	gwneud	mathemateg.
	cael	gwersi hanes a ...
	chwarae	mewn band.

Pan oeddwn i'n blentyn …

- Roeddwn i'n byw yn Llanybydder ac roeddwn i'n cerdded tua milltir i'r ysgol bob dydd.
- Roeddwn i'n cael gwersi piano gyda Mrs Bramley. Roedd hi'n garedig iawn.
- Roedd cath gyda fi o'r enw Llew.
- Roeddwn i'n hoffi ysgrifennu storïau yn yr ysgol.
- Roeddwn i'n mwynhau canu ond roeddwn yn nerfus ar y llwyfan.
- Roeddwn i'n dair oed pan gafodd fy chwaer ei geni. Roeddwn i wrth fy modd gyda hi!

Roeddwn i'n hoffi......achos roedd e'n...

ond

Doeddwn i ddim yn hoffi... achos roedd e'n ....

roedd...

Gwaith pâr - Pynciau Ysgol

Oeddwn/ Nac oeddwn.....

Cymraeg

Saesneg



Mathemateg

Gwyddoniaeth

Addysg Grefyddol

Technoleg Gwybodaeth

Hanes

Cerddoriaeth

Daearyddiaeth

Celf

Addysg Gorfforol

Technoleg

Roeddwn i'n hoffi ________ achos roedd e'n…
ond
Doeddwn i ddim yn hoffi ______ achos roedd e'n

Pam roeddet ti'n hoffi…?

Roeddwn i'n hoffi ________ achos roedd e'n …

…ddiddorol
… gyffrous
… hwyl
… wych
… ddoniol

	Enw:	Enw:	Enw: ....
mynd			
dechrau'r ysgol am			
cael gwersi			
chwarae			
bwyta … i ginio			
mwynhau			
hoffi			
mynd adre am			
gwybodaeth arall			

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David
Peniarth.cymru
Rhagor iaith
Canolfan Gwasanaethau Cymraeg
Welsh Language Services Centre

Y gadair goch

1. Yn eich tro, eisteddwch yn y gadair goch.
2. Gofynnwch gwestiynau i'r person yn y gadair goch am ddyddiau ysgol.

Oeddet ti'n …?
Oeddech chi'n …?

Oeddwn.
Oeddwn, roeddwn i'n ….
Nac oeddwn.
Nac oeddwn, doeddwn i ddim yn ….

Tasg 1

Dyddiau ysgol / School Days

- Ysgrifennwch ddarn am eich dyddiau ysgol chi.
- Mae rhai patrymau yma i'ch helpu

Pan oeddwn i'n blentyn …

- Roeddwn i'n dechrau ysgol am…
- Roeddwn i'n hoffi / mwynhau / chwarae …
- Roedd diddordeb gyda fi mewn …
- Roeddwn i'n mynd i …
- Roedden ni'n cael gwersi …
- Roeddwn i'n bwyta … i ginio
- Roedden ni'n mynd adre am …

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David

Peniarth .cymru RHAGOR iaith

CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

Tasg 2

1. ______ ti'n ferch dda yn yr ysgol ddoe.
2. ______ni wedi blino neithiwr.
3. ______ nhw'n cysgu yn nhŷ Mam-gu wythnos diwethaf.
4. ______ chi'n chwarae'n dda yn y gêm rygbi.
5. ______ Siôn yn hapus dros y penwythnos.
6. ______ ni'n dawel iawn pan yn y gwasanaeth.
7. ______ e tu fas i ddrws y Pennaeth ddoe.

Atebion: Tasg 2

1. <u>Roeddet</u> ti'n ferch dda yn yr ysgol ddoe.
2. <u>Roedden</u> ni wedi blino neithiwr.
3. <u>Roedden</u> nhw'n cysgu yn nhŷ Mam-gu wythnos diwethaf.
4. <u>Roeddech</u> chi'n chwarae'n dda yn y gêm rygbi.
5. <u>Roedd</u> Siôn yn hapus dros y penwythnos.
6. <u>Roedden</u> ni'n dawel iawn pan yn y gwasanaeth.
7. <u>Roedd</u> e tu fas i ddrws y Pennaeth ddoe.

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David

Peniarth .cymru | RHAGOR iaith | CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG | WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

Cofiwch!

To form the negative, the "R" is replaced with a "D" and a ddim is added e.g.

Roeddwn i'n gallu chwarae hoci.
Doeddwn i ddim gallu chwarae rygbi.

Roeddwn i'n gallu reidio beic
ond doeddwn i ddim yn gallu nofio.

Tasg 3

1. Roeddwn i eisiau brechdan i ginio.
2. Roedd hi'n gwybod yr ateb i'r cwestiwn.
3. Roedden ni'n edrych yn daclus yn ein gwisg ysgol.
4. Roedd Catrin ac Alis yn ffrindiau da.
5. Roedd y dosbarth yn gweithio'n galed.
6. Roeddet ti eisiau prynu car newydd.
7. Roedden nhw'n gweithio mewn siop.
8. Roedd y tywydd yn braf ddoe.

Atebion: Tasg 3

1. Doeddwn i ddim eisiau brechdan i ginio.
2. Doedd hi ddim yn gwybod yr ateb i'r cwestiwn.
3. Doedden ni ddim yn edrych yn daclus yn ein gwisg ysgol.
4. Doedd Catrin ac Alis ddim yn ffrindiau da.
5. Doedd y dosbarth ddim yn gweithio'n galed.
6. Doeddet ti ddim eisiau prynu car newydd.
7. Doedden nhw ddim yn gweithio mewn siop.
8. Doedd y tywydd ddim yn braf ddoe.

Gofyn Cwestiynau

	Unigol	Lluosog
1	Oeddwn i?	Oedden ni?
2	Oeddet ti?	Oeddech chi?
3	Oedd e? Oedd hi? Oedd Siôn? Oedd y plant?	Oedden nhw?

To form a question, the "R" is omitted.

Gofyn Cwestiynau ac Ateb

Oeddet ti'n...?

* Oeddet ti'n mynd i glwb?
* Oeddet ti'n hoffi'r ysgol?
* Oeddet ti'n gwylio'r teledu?
* Oeddet ti'n dysgu Cymraeg?
* Oeddet ti'n byw yn y wlad?
* Oedd _______ gyda ti?

Ateb:

Oeddwn

Nac oeddwn

Sut i ateb yn gywir?

Oeddwn i.....?

Oeddet /
Nac oeddet

Oedden ni…?

Oedden /
Nac oedden

Oeddet ti… ?

Oeddwn /
Nac oeddwn

Oeddech chi… ?

Oedden /
Nac oedden

Oedd e/hi ?

Oedd /
Nac oedd

Oedden nhw ?

Oedden /
Nac oedden

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David

Peniarth .cymru | Rhagor iaith | Canolfan Gwasanaethau Cymraeg Welsh Languag Services Centre

Tasg 4: Gwaith pâr –

Darllenwch y sgyrsiau yma ac yna ysgrifennwch sgwrs debyg

Sam:	Ble est ti i'r ysgol?
Mathew:	Es i i Ysgol Aber.
Sam:	Oeddet ti'n hoffi'r ysgol?
Mathew:	Oeddwn, roeddwn i'n hoffi'r ysgol yn fawr.
Sam:	Pam?
Mathew:	Roeddwn i'n hoffi chwarae gyda ffrindiau amser chwarae.
Sam:	Beth oeddech chi'n chwarae?
Mathew:	Roedden ni'n chwarae gemau pêl.
Sam:	Oeddet ti'n hoffi'r gwersi?
Mathew:	Oeddwn, wrth gwrs! Roeddwn i'n hoffi pob gwers!

Nawr, paratowch sgwrs newydd.

Erin:	Ble est ti i'r ysgol?
Miriam:	Es i i Ysgol Llanfair.
Erin:	Oeddet ti'n hoffi'r ysgol?
Miriam:	Nac oeddwn, doeddwn i ddim yn hoffi'r ysgol.
Erin:	Pam?
Miriam:	Doeddwn i ddim yn hoffi'r wisg ysgol ... doeddwn i ddim yn hoffi'r cinio ysgol ... doeddwn i ddim yn hoffi hanes na daearyddiaeth na gwyddoniaeth na Saesneg ...
Erin:	Oeddet ti'n hoffi **unrhyw** beth?
Miriam:	Oeddwn – roeddwn i'n hoffi amser mynd adre!

Nawr, paratowch sgyrsiau newydd.

Tasg 5:
Person hanesyddol

Sgwrs – yn yr ysgol

Athro:	Beth rydych chi'n wybod am Florence Nightingale, blant?
Tom:	Roedd hi'n nyrs.
Athro:	Roedd hi'n dod o Florence.
Huw:	Roedd hi'n nyrsio yn Rhyfel Crimea. Roedd Rhyfel Crimea rhwng 1853 ac 1856.
Alys:	Roedd hi'n helpu'r dynion yn yr ysbyty. Roedd hi'n cario lamp.

Dewiswch gymeriad hanesyddol. / *Choose any historical character.*

Chwiliwch am y wybodaeth yma: / *Look for the following information.*
dod o
gwaith
enwog am...

Wedyn, ysgrifennwch sgwrs debyg i'r sgwrs uchod.

Ewch ati i greu tasg adolygu ar Wordwall.

Wordwall

Diolch
yn Fawr